**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 21 Mawrth 2014 yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Lark Davies, R. A. Williams, (Cyngor Tref Abermaw), Y Cyng. Eric Wilding (Cyngor Cymuned Arthog), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion), Mr Llew Griffin (Clwb Hwylio Meirionnydd), Mr David Baily (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr Moryd Abermaw)

Hefyd yn Bresennol drwy wahoddiad y Cadeirydd: Dr J P. Smith (BVAG a Grŵp Cynllunio Ymlaen y Cyngor Tref)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llþr B. Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd John Wynn Jones (Aelod Cabinet Economi, Cyngor Gwynedd).

1. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Gethin Williams a Mrs Wendy Ponsford fuddiant personol mewn unrhyw fater a drafodir yn ymwneud â'r Clwb Hwylio gan eu bod yn Aelodau o'r Clwb.

2. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 21 Hydref 2013.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir yn ddarostyngedig i newid y gair "cemetery" i "graveyard" ar dudalen 7 o'r cyfieithiad Saesneg.**.

3. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(A) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau – Cylch Gorchwyl**

(i) Cyfeiriwyd at gylch gorchwyl y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau a oedd yn cyfarch Aelodaeth, Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd, Cworwm a Phleidleisio, Amlder Cyfarfodydd a

swyddogaethau'r Pwyllgor, sydd i'w fabwysiadu mor fuan â phosibl er mwyn cysoni trefniadaeth y 4 Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr. Pwysleisiwyd bod Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn un statudol ac fe sefydlir Pwyllgorau Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Phwllheli o dan Adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Pwysleisiwyd ymhellach y byddir yn cyfyngu'r materion i'w trafod ar y Rhaglen i faterion sy'n allweddol bwysig i'r Harbwr megis cyllidebau, gweithrediad yr harbwr, staffio, rhaglenni gwaith, a.y.b. ac y byddai modd trafod materion tu allan i gylch gorchwyl yr Harbwr yn uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth Morwrol.

(ii) Er mwyn ffurfioli trefniadau, awgrymwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai llythyru gyda phob un o'r sefydliadau sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol fel a ganlyn i:

(a) Gadarnhau rôl a phwrpas y Pwyllgor
(b) Gwahodd enwebiadau ar gyfer gwasanaethu ar y Pwyllgor
(c) Gofyn i sefydliadau nodi'r rhesymau a'r cyfleoedd lle gwelir y byddant yn gallu cyfrannu fel sefydliad at waith y Pwyllgor Ymgynghorol

(iii) Hyderir y gellir gweithredu'r trefniadau yn unol â'r cylch gorchwyl ym mis Hydref 2014. Awgrymir ethol hyd at saith aelod i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr Harbwr a phe byddai mwy o sefydliadau yn dangos diddordeb na'r hyn sydd ei angen fel rhan o'r Aelodaeth mater i'r Aelod Cabinet fydd ystyried a dewis a dethol yr Aelodaeth derfynol.

(iv) Pwysleiswyd nad oedd y Cyfarfodydd yn gaeedig ac y byddai modd i unigolion fynychu i wrando ar y trafodaethau ond ni fyddai hawl ganddynt i ofyn cwestiynau ac i fynegi barn. Ychwanegwyd bod Aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol yn derbyn rhagrybudd o ddyddiad y cyfarfodydd gyda gwahoddiad i anfon eitemau i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu er ystyriaeth ar y Rhaglen gyda materion brys yn cael eu cyfeirio drwy Gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol. Felly os oes unrhyw fater yn ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor y dymunai unigolion wyntyllu yn y Cyfarfodydd byddai modd codi'r materion hynny gyda'r Cadeirydd, Aelodau lleol neu gynrychiolwyr y sefydliadau fydd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor.

(v) Gan gyfeirio at gymal yn y cyfansoddiad a oedd yn nodi y gall hyd at 4 aelod lleol o Gyngor Gwynedd wasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol, nododd Aelod bod 3 aelod yn gwasanaethu ar hyn o bryd ac oni fyddai'n briodol gwahodd yr Aelod sy'n cynrychioli Ward Brithdir a Llanfachreth / Y Ganllwyd / Llanelltyd gan fod ffin ei etholaeth yn ymestyn hyd at Bontddu ac o fewn ardal ddynodedig yr Harbwr. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y gellir cysylltu efo'r Aelod i ganfod os ydoedd yn awyddus i wasanaethu ar y Pwyllgor.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu anfon llythyr i'r holl sefydliadau sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol fel amlinellir yn (ii) (a), (b), a (c) uchod.**

**(B) Cod Diogelwch Harbyrau**

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y Cod yn statudol ond yn ymarferiad da a'i brif bwrpas ydoedd nodi trefniadau angenrheidiol addas o ran atebolrwydd a phrosesau am ddiogelwch morwrol. Atgoffwyd bod y Cod wedi ei gyflwyno i gyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn gyda chais i dderbyn unrhyw sylwadau gan Aelodau unigol ar ei gynnwys. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar gynnwys y Cod Diogelwch ac felly cymerir yn ganiataol bod y Cod i'w gymeradwyo ac fe fyddir yn ystod yr wythnosau nesaf yn atodi'r ddogfennaeth briodol iddo megis is-ddeddfau, a.y.b. i'w argraffu a'i ddosbarthu i'r sefydliadau perthnasol. Pwysleiswyd mai strwythur ydoedd yn hytrach na Deddf.

(ii) Mewn ymateb i syndod amlygwyd gan Aelod nad oedd y Cod yn statudol a beth fyddai'n digwydd pe byddai dau gwch yn taro ei gilydd, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod bodolaeth y cymhorthyddion mordwyo yn ddigonol ac y byddai'n amhosibl i'r Cyngor gael ei ddal i gyfrif os yw dau gwch yn taro ei gilydd.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r Cod Diogelwch Harbyrau.**

**(C) Mordwyo ac Angorfeydd**

(i) Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y cymhorthyddion mordwyo wedi aros ar eu safle er gwaethaf y tywydd garw a brofwyd. Fodd bynnag collwyd 2 olau ond sicrhawyd y byddant yn ôl erbyn Gŵyl y Pasg. Derbyniwyd adroddiad cadarnhaol gan Dŷ'r Drindod ynglŷn â chyflwr y bwiau.

(ii) Talwyd teyrnged i staff yr Harbwr ynghyd â gweithlu eraill y Cyngor a fu'n gweithio'n hynod o galed i gynorthwyo yn ystod y tywydd garw ac fe awgrymodd Aelod y dylid ysgrifennu llythyr o ddiolch iddynt ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol.

(iii) Nododd Aelod bod y cymhorthyddion mordwyo i'w canmol eleni ond gwnaed cais i symud y côn gwyrdd conigol ychydig i'r dde.

(iv) Penderfynwyd peidio rhoi'r bwiau traethau oherwydd y nifer a gollwyd yn y gorffennol gydag eithriad i safle Caerddaniel sydd yn cyd-ariannu'r gost gyda'r Cyngor. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â chost bwi, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod oddeutu £150 ac arferwyd gosod oddeutu 60 ohonynt. Nid oedd peidio eu gosod wedi creu unrhyw bryder o gwbl oherwydd bod sustem cofrestru gadarn mewn lle ar gyfer cychod ac y byddai modd canfod rhif unrhyw gwch sydd ddim yn cydymffurfio â gofynion. O safbwynt goruchwylio ardal Fairbourne, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai hyn i fyny i'r cyhoedd gysylltu gyda'r Harbwr Feistr neu'r Heddlu os gwelir unrhyw gamddefnydd o'r gweithgareddau.

(v) Hyderir y bydd yr angorfeydd wedi eu cwblhau a'u gosod erbyn Gŵyl y Pasg ac fe hysbysir y contractwr na fydd neb yn cael lansio heb ganiatâd yr Harbwr Feistr. Rhaid derbyn tystysgrif cymwys a chyfredol ynglyn ag ansawdd yr angor ac fe fyddir yn tynhau ar hyn eleni.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(D) Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr**

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau negyddol o safbwynt gweithrediadau a rheolaeth y fferi llynedd. Newidiwyd telerau'r drwydded llynedd a bwriedir ei hymestyn eto ar gyfer eleni. Ni dderbyniwyd cwyn bod y gweithredwyr yn cario mwy na'r hyn sydd wedi ei nodi ar y trwyddedau ychwaith.

(ii) Nododd Aelod bod y cychod yn cael eu gadael wrth waelod stepiau'r fferi sydd yn ei wneud yn anodd i'r cyhoedd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(DD) Cyllidebau Harbyrau**

(i) Cyflwynwyd taenlen gyllideb i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod a thywyswyd hwy drwy'r wybodaeth gan nodi bod targed incwm yr Harbwr yn £44,730 gyda £32,570 wedi ei adennill erbyn diwedd Chwefror 2014 a olygai £!2,160 yn fyr o'r targed. O safbwynt gwariant roedd cyllideb o £28,640 gyda £17,750 wedi ei wario hyd yma sydd yn gadael £10,855 yn weddill. Nodwyd bod sefyllfa cyllideb Harbwr Abermaw yn edrych yn eitha' iach ar hyn o bryd ond rhaid cymryd i ystyriaeth sefyllfa ariannol y Gwasanaeth Morwrol yn ei gyfanrwydd.

(ii) O ystyried bod y swm a nodir uchod yn weddill, gofynnwyd pam na fyddai modd cyflogi unigolyn i warchod Pwynt Penrhyn, Fairbourne. Mewn ymateb, tra'n derbyn bod arian yn weddill nid oedd modd cyflogi o dan benawdau'r Harbwr oherwydd bod cyllideb ar wahân i'r traethau. Pwysleisiwyd yn ogystal bod angen buddsoddi mewn goleuadau i'r Harbwr.

(iii) Nodwyd ei bod yn bechod bod y Cyngor wedi gwaredu asedau yn Abermaw.

(iv) Nodwyd ymhellach os oes cyllideb yn weddill y byddai'n fwy manteisiol i fuddsoddi er mwyn arbed arian yn y tymor hir megis mewn camerâu cylch cyfyng i warchod y pontŵn. Teimlwyd y byddai hyn o fudd i staff yr Harbwr, yr Heddlu a'r Cyngor pe byddir yn buddsoddi mewn cyfarpar o'r fath er diogelwch y cyhoedd. Pwysleiswyd yr angen i ail-ystyried hyn oherwydd yn y tymor hir y byddai'n arbediad i'r Gwasanaeth.

(v) Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig efallai yn y flwyddyn ariannol nesaf gellir ymchwilio i weld faint fyddai'r gost i roi camera ar ochr adeilad SS Dora ond pwysleisiwyd bod angen blaenoriaeth yn unol â'r gyllideb sydd ar gael.

(vi) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â TAW, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y Cyngor yn talu TAW ond yn hytrach yn talu'r gyllideb net.

(vii) Cyfeiriwyd at daenlen oedd ynghlwm i'r rhaglen yn nodi chwyddiant ar dargedau ar bob elfen o'r Gwasanaethau a nodwyd cynnydd o 2% ar ffioedd a thaliadau. Mynegwyd pryder mai dim ond 48 ffurflen cofrestru angorfeydd sydd wedi ei dychwelyd hyd yma. Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â ffurf o dalu, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod modd cysylltu'n uniongyrchol ag Adran Gyllid y Cyngor i drefnu talu ar ffurf debyd uniongyrchol neu gellir talu ar ffurf arian barod a / neu siec yn Swyddfa'r Harbwr Feistr. Yn ogystal, nodwyd bod modd talu mewn rhaniadau yn fisol hefyd drwy drefniant.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(E) Digwyddiadau**

(i) Edrychir ymlaen at :

- Ras y Tri Chopa a chynigodd Mr Ken Fitzpatrick i gynorthwyo gyda'r offer pe byddai pwyllgor y ras yn dymuno hynny.
- Penwythnos Regata Ceufadau sydd i'w gynnal 31 Mai / 1 Mehefin

(ii) Adroddwyd bod trafodaethau pellach i'w cynnal gyda threfnwyr y Motorcross gan fod bwriad i'w symud i fis Tachwedd rhag gwrthdaro gyda gwyliau hanner tymor ysgolion ym mis Hydref fel digwyddodd llynedd.

(iii) Nododd Aelod bod ei gynnal yn ystod gwyliau hanner wedi achosi cryn drafferth llynedd o safbwynt parcio i'r ymwelwyr arferol.

(iv) Mewn ymateb, anghytunai Aelod oherwydd yn ystod y penwythnos dan sylw roedd ymwelwyr wedi cael rhybudd i beidio teithio ac mai ychydig iawn o ymwelwyr oedd yn Abermaw'r penwythnos hwnnw heblaw am gystadleuwyr a chefnogwyr y Motorcross.

(v) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod canlyniadau ansawdd dwr ymdrochi Abermaw yn ardderchog sydd yn newyddion da o safbwynt llwyddiant i arddangos gwobr y Faner Las flwyddyn nesaf. Yn yr un modd roedd Fairbourne wedi cyrraedd y gofynion ar gyfer Gwobr Baner Traeth Gwledig sydd yn gyfartal mewn egwyddor i'r Faner Las ond mewn categori "gwledig". Pe byddai Fairbourne yn awyddus i gyflwyno cais am Faner Las byddai'r costau ynghlwm yn aruthrol drwy orfod cyflogi aelod o staff ar y traeth a buddsoddi mewn caban i'r staff, offer, celfi, toiledau,a.y.b. Pwysleisiwyd bod cost cyflwyno cais am y Faner Las yn oddeutu £600 ac erbyn hyn nid oes gan y Gwasanaeth Morwrol gyllideb ar ei gyfer a bod bwriad i ysgrifennu at Gynghorau Tref / Cymuned i wneud cais am gyfraniad fel bo modd iddynt ei gynllunio o fewn ei praesept. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod o Gyngor Cymuned Arthog ynglyn â chyflwyno cais am y Faner Las i Fairbourne, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai modd trafod hyn ymhellach pan fyddai'n ymweld â'r Cyngor Cymuned yn yr wythnos nesaf yn ogystal â materion staffio ym Mhwynt Penrhyn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(F) Gwelliannau**

(i) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â gosod stanciau yn yr Harbwr ar derfyn bysedd y pontŵn, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd problem o safbwynt egwyddor ond y byddai modd gwneud ar gost sylweddol o oddeutu £50,000 ar gyfer costau trwydded, ymchwil i gynnwys astudiaeth yr effaith amgylcheddol, ac archwiliad o'r tir. Rhaid cofio hefyd efallai y byddai gan Gyfoeth Naturiol Cymru sylwadau gwahanol. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod costau rhagbaratoi yn uchel aruthrol a rhaid bod yn realistig.

(ii) Caniateir i gychod aeafu wrth ochr y Cowpownd ac nid ar ochr y cei. Mewn ymateb i bryder amlygwyd ynglyn â chyflwr wal y cei gyferbyn â'r Clwb Hwylio, addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n trafod y mater ymhellach gyda'r Prif Beiriannydd.

(iii) Nodwyd bod peiriannau ar y traeth yn barod i symud y tywod ac fe fyddai'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynghyd â'r swyddogion perthnasol yn ymweld â'r traeth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol. Dangoswyd lluniau gan Mr Llew Griffin i'r Aelodau o'r traeth gan gyfeirio'n benodol bod oddeutu 2 droedfedd o dywod wedi mynd oddi ar y traeth ac o ganlyniad rhagdybir y bydd ochr y dre' i'r traeth yn llawer prysurach eleni. Ychwanegodd Aelod dros Gymuned Arthog o ddigwyddiad lle bu i ddynes gael damwain ar y graean bras a'r cerrig sydd wedi ei olchi fyny a bod angen ei ail-leoli ar y traeth.

(iv) Mewn ymateb i bryder amlygwyd ynglyn ag ymchwydd yn y llanw, sicrhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi unrhyw ymchwyddiadau.

(v) Esboniodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned, o safbwynt effaith y tywydd garw, bod y Cyngor wedi cyflwyno ceisiadau am wahanol grantiau ac wedi derbyn cymorth drwy Groeso Cymru i geisio cefnogi cylchfannau twristiaeth a bod agweddau cyfalaf ar gyfer Abermaw i atgyweirio wal y promenâd, mân welliannau ar yr Harbwr, edrych ar y ddarpariaeth wrth ymyl y gerddi ac y bydd hyn wedi ei gwblhau rhwng 'rŵan a diwedd Ebrill.

(vi) Ychwanegwyd bo modd i fusnesau lleol sydd wedi eu heffeithio o ganlyniad i'r tywydd garw gyflwyno cais am gymorth ariannol o hyd at £5,000 yn ddarostyngedig ar brofi:

- Tystiolaeth o'r effaith a gafwyd ar y busnes

- Cyfiawnhad pam nad yw cais o'r fath yn gymwys ar gyfer yswiriant
- Sut fyddai'r cymorth yn cefnogi'r busnes ar gyfer y tymor sydd i ddod

Fe fyddir yn hysbysu'r cymorth ariannol yn y papur lleol ac mae modd i fusnesau gysylltu â Mr Colin Morris, Uned Cefnogi Busnes y Cyngor, drwy Galw Gwynedd ym Mhenrhyndeudraeth.

(vii) Byddir yn parhau gyda'r cynllun o waredu tan gwyllt.

(viii) O safbwynt y storfa forwrol (compownd), byddir yn anfon y cytundebau newydd yn y dyddiau nesaf. Hysbysebwyd y llecyn sbâr a derbyniwyd tri chais ac fe fyddir yn cysylltu hefo'r ymgeisydd llwyddiannus yn unol â'r criteria perthnasol.

(ix) Buddsoddwyd yn yr ysgolion yn yr Harbwr.

(x) Hyderir y gellir cyfarfod gyda chynrychiolwyr y Clwb Hwylio yn fuan iawn i drafod rheolaeth y pontŵn. Nodwyd bod llawer o waith wedi ei gyflawni ar y pontŵn yn deillio o ddifrod achoswyd.

(xi) Nodwyd bod un uned ar werth yn Aberamffra sydd yn ardal wych i bysgotwyr oherwydd ei fod allan o ffordd y cyhoedd ac yn ddiogel. Cedwir un uned gan y Cyngor ar gyfer potensial i'w ddefnyddio i'r dyfodol.

(xii) Nodwyd bod y consesiynau traeth megis gweithgareddau mulod ar y traeth, trampolîn, siglenni, yn parhau ond gwrthodwyd cais i roi cwrs golff ar y traeth.

(xiii) Cadarnhawyd y byddir yn parhau i gynnal a chadw'r llithrfeydd. Tynnodd Aelod sylw at addewid gan y Prif Beiriannydd yng nghofnodion diwethaf y Pwyllgor Ymgynghorol i drafod syniadau'r Clwb Hwylio ar gyfer llithrfa arfaethedig gyferbyn â'r Clwb Hwylio ond nad oedd hynny byth wedi digwydd. Mewn ymateb, addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig atgoffa'r Prif Beiriannydd o'r mater hwn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (FF) Staff Harbwr

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Cymhorthydd Harbwr wedi ei benodi i ddechrau ar 7 Ebrill tan Fedi 2014. Bwriedir penodi 4 staff ychwanegol ar y Traeth. Cyfeiriwyd at ymddeoliad Mr Ken Fitzpatrick a fydd yn gorffen ar 14 Mawrth 2014. Diolchwyd iddo am ei ymroddiad a'i waith clodwiw dros y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddo yn ei ymddeoliad. Fe fyddir yn derbyn cymorth wythnosol gan Harbwr Feistr Porthmadog i lenwi'r bwlch a greuir o ganlyniad i ymddeoliad Mr Fitzpatrick. Nodwyd ymhellach bod mwyafrif o'r gwaith a oedd wedi ei raglennu wedi ei gwblhau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (G) Ymddiriedolaeth Harbwr

Croesawyd Dr John Smith i adrodd ar gynlluniau'r Cyngor Tref i sefydlu Ymddiriedolaeth Cymunedol Elusennol i fedru cymryd drosodd asedau megis y Tolldy er mwyn ei ddatblygu. Cyfeiriwyd at enghreifftiau o grwpiau llwyddiannus o'r fath yn Aberdyfi, Tal-y-llyn, Abergwaun, Partneriaeth Penllyn, Trawsnewid. Ychwanegwyd y byddai o fantais sefydlu Ymddiriedolaeth i fedru codi arian a chyflwyno ceisiadau am grantiau mewn modd na fyddai ar gael i'r Cyngor Tref.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn eitha' heriol ar hyn o bryd a rhagolygon i waethygu dros y 2/3 blynedd nesaf. Gwelir sawl awdurdod yn Lloegr yn gorfod cwtogi ar wasanaethau a chredir y bydd angen edrych ar gyfleoedd o safbwynt gwasanaethau lleol ar draws y Cyngor. Tra'n derbyn bod y syniad a'r brwdfrydedd yn galonogol dros ben, byddai'n rhaid i'r Adran Economi a Chymuned ystyried sut all y Cyngor roi cefnogaeth i'r fenter. Yng nghyd-destun yr Harbwr, fe fyddai'n ofynnol ystyried Gorchymyn Adolygu'r Harbwr o safbwynt sefydlu math yma o gorff ac mae'n siŵr bod gwahanol opsiynau ar gael i'w hystyried ymhellach. Pwysleiswyd bod yn rhaid i unrhyw Ymddiriedolaeth Cymunedol fod yn ariannol hyfyw i gynnal y sefydliad ac fe nodwyd enghraifft ym Methesda lle mae grŵp wedi medru denu grantiau ac yn adfer adeiladau gan gynnig unedau i gyrff allanol. Fodd bynnag, nodwyd ymhellach ei fod yn galonogol iawn o'r ymdrechion cynnar yn Abermaw.

Eglurwyd ymhellach o'r 1 Ebrill eleni bod Gwasanaeth Hamdden yn trosglwyddo i'r Adran Economi a Chymuned ac o ganlyniad fe fyddir yn gorfod ail-edrych ar strwythurau a beth fyddai'r gefnogaeth i grwpiau a sefydlir.

Nododd Aelod y byddai o fantais i ehangu'r Ymddiriedolaeth i gynnwys cymunedau cyfagos eraill ac y byddai'n fater y gall Aelodau Lleol ei hyrwyddo.

Nododd Aelod arall yr angen i gymryd i ystyriaeth y medrydd eigioneg mewn unrhyw ddatblygiad o'r Tolldy oherwydd y byddai'n golled drist i'w golli.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 5. <u>UNRHYW FATER ARALL</u>

Adroddodd Aelod bod anghysondeb ar y We ynglyn â chanllawiau ar gyfer yswiriant a bod angen diweddaru'r lluniau o Abermaw a ymddangosir ar y rhyngrwyd.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymchwilio i'r uchod.**

## 6. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>

**Penderfynwyd Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar ddydd Iau, 16 Hydref 2014.**

**CADEIRYDD.**